

Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

Cylch Meithrin y Parc

**Capel Salem
Stryd y Farchnad
Treganna
Caerdydd
CF5 1QE**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg



Dyddiad Cyhoeddi

Dydd Iau, 5 Hydref 2017

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2017.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a phaidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cofrestrwyd Cylch Meithrin y Parc ym mis Ebrill 2011 gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ac mae'n cael ei gynnal o ystafelloedd mewn eglwys yn Nhreganna, Caerdydd. Mae'r eglwys yn cael ei defnyddio gan grwpiau eraill yn y gymuned y tu allan i oriau gweithredu'r cylch chwarae, ac o ganlyniad mae'r holl adnoddau yn cael eu tacluso ar ddiwedd y dydd. Mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg gan bwyllgor rheoli Cylch Meithrin y Parc, sydd ar ganol y broses o benodi unigolyn cyfrifol newydd. Mae yna berson â gofal sydd â phrofiad a chymwysterau priodol ac sydd â chyfrifoldeb dros redeg y cylch o ddydd i ddydd. Mae'r gwasanaeth wedi cael ei gofrestru i ofalu am 19 o blant sydd rhwng dwy a phedair blwydd oed, ac mae'n cynnal dwy sesiwn y dydd, ddydd Llun i ddydd Gwener, yn ystod tymor yr ysgol. Mae hwn yn wasanaeth cyfrwng Cymraeg.

Crynodeb o'n canfyddiadau

1. Asesiad cyffredinol

Gwnaethom ymgymryd ag arolygiad â phwyslais penodol er mwyn ystyried y materion o ddiffyg cydymffurfiaeth sy'n dal heb eu datrys. Ar y cyfan, canfuom fod y plant wedi setlo'n dda yn y gwasanaeth a'u bod yn mwynhau eu hamser yno yn fawr iawn. Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o anghenion unigol y plant maen nhw'n gofalu amdanynt ac mae'r amgylchedd yn lân ac yn cynnwys llawer o adnoddau. Fodd bynnag, mae angen i'r pwyllgor rheoli weithredu a chwblhau adolygiad o ansawdd y gofal ar gyfer y gwasanaeth.

2. Gwelliannau

Mae'r pwyllgor rheoli wedi penodi dirprwy berson â gofal i helpu gyda dyletswyddau gweinyddol, ac mae rheiddiaduron newydd wedi cael eu gosod. Mae'r gwasanaeth wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran yr argymhellion a wnaed yn ystod yr arolygiad diwethaf, gan gynnwys asesiadau risg ar gyfer teithiau i'r ysgol ac oddi yno, ac erbyn hyn mae byrbrydau'r plant yn cael eu paratoi yn y gegin. Mae'r gwasanaeth bellach yn cydymffurfio â Rheoliad 25 (a), Peryglon a diogelwch, a Rheoliad 29 (3) (a), Cyflogi staff.

3. Gofynion ac argymhellion

Nid yw'r darparwr cofrestredig yn cydymffurfio o hyd â Rheoliad 16 (1), Adolygu ansawdd y gofal. Gwnaethom rai argymhellion mewn perthynas ag arferion a bydd y rhain yn cael eu hystyried yn ystod arolygiad llawn nesaf y gwasanaeth. Mae gwybodaeth bellach ar gael drwy gydol yr adroddiad.

1. Llesiant

Crynodeb

Arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn ac ni wnaethom ystyried y thema hon yn llawn. Bydd yn cael ei harchwilio yn fwy manwl mewn arolygiadau yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r canlyniadau i blant yn gadarnhaol. Mae ganddynt gyfleoedd da i chwarae a dysgu. Mae eu safbwyntiau yn cael eu hystyried ac mae staff yn ymateb i'w hanghenion unigol. Mae gan blant ryngweithiadau cadarnhaol â staff a'u cyfoedion. Mae'r gweithgareddau sydd ar gael yn hyrwyddo chwarae'r plant a'u datblygiad cyffredinol ac yn cefnogi eu dysgu.

Ein canfyddiadau

1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae gan y plant ddewis ac maent yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch gweithgareddau chwarae ac adnoddau. Roedd y plant yn hyderus wrth siarad ac roedd sgysiau rheolaidd yn cael eu cynnal â'r staff, a oedd yn gwrando ar yr hyn yr oedd ganddynt i'w ddweud. Roedd y plant yn cael cynnig dewisiadau ynghylch yr hyn roeddent yn ei yfed a'i fwyta, a ph'un a oeddent eisiau mwy.

Mae gan y plant lais. Mae eu barn a'u safbwyntiau yn cael eu hystyried ac mae hyn yn hyrwyddo eu hyder a'u hunan-fri.

1.2 I ba raddau mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Ar y cyfan, mae'r plant yn gyfforddus, ac maent yn ffurfio perthnasau cadarnhaol â'u gofalwyr a'u cyfoedion. Roedd y plant wedi setlo'n dda yn ystod yr arolygiad, o ystyried mai dim ond ail ddiwrnod rhai plant ydoedd yn y gwasanaeth. Gwelsom blant yn chwarae'n hapus gyda'i gilydd mewn parau a grwpiau bach, a chlywsom staff yn aml yn rhoi canmoliaeth ac anogaeth i blant, ac roedd hyn yn eu gwneud i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae'r plant yn ffurfio cyfeillgarwch gyda'u cyfoedion ac ymlyniadau da gyda'u gofalwyr. Mae hyn yn hyrwyddo eu llesiant.

1.3 I ba raddau mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn hapus gyda'r gweithgareddau sydd ar gael iddynt ac maent yn dangos ymdeimlad o bleser wrth iddynt chwarae. Gallant archwilio'r teganau a'r adnoddau a datblygu eu diddordebau eu hunain. Gwelsom ystod dda o deganau a oedd yn briodol ar gyfer pob oedran a cham datblygu ac yr oedd y plant yn mwynhau chwarae gyda nhw, gan gynnwys teganau gydag olwynion, llyfrau, bwrdd sialc, toes chwarae a chegin chwarae rôl. Gwelsom blentyn yn mwynhau coginio teisen a rhoi darnau i'w gyfoedion, ac roedd grŵp o blant yn chwerthin wrth iddynt baentio.

Mae plant yn mwynhau'r gweithgareddau chwarae. Mae hyn yn hyrwyddo eu datblygiad.

1.4 Pa mor dda mae'r plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn datblygu'n dda am fod ganddynt fynediad at amgylchedd chwarae cyfoethog gyda llawer o gyfleoedd dysgu a chwarae gwahanol. Gwelsom fod y plant yn hapus wrth iddynt ddangos i'r staff beth roeddent yn ei wneud. Mae plant yn cael eu hannog i fynegi eu hunain ac mae staff yn estyn sgysiau trwy ddangos diddordeb ac ymateb mewn modd cadarnhaol. Yn ystod amser byrbryd, roedd y plant yn cael eu hannog i weini eu hunain o'r dewis o fyrbrydau iach oedd ar gael. Roedd y plant yn cael eu hannog i olchi eu llestri eu hunain a rhoi unrhyw fwyd gwastraff yn y bin ac roedd hyn yn hyrwyddo eu hannibyniaeth. Mae'r plant yn datblygu sgiliau hunangymorth pwysig. Mae hyn yn hyrwyddo eu hyder a'u datblygiad.

2. Gofal a Datblygiad

Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol a oedd yn canolbwyntio ar lesiant y plant a rhai agweddau ar yr amgylchedd ac arweinyddiaeth. Nid oeddem yn ystyried ei fod yn angenrheidiol i edrych ar ofal a datblygiad ar yr achlysur hwn. Bydd y thema hon yn cael ei hystyried mewn arolygiadau yn y dyfodol.

3. Yr Amgylchedd

Crynodeb

Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol ac ni wnaethom ystyried y thema hon yn llawn. Bydd yn cael ei harchwilio yn fwy manwl mewn arolygiadau yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r darparwr wedi cyflawni cydymffurfiaeth â materion yn ymwneud â pheryglon a diogelwch yn yr amgylchedd.

Ein canfyddiadau

3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?

Yn ystod yr arolygiad diwethaf, fe wnaethom gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio o ran peryglon a diogelwch oherwydd bod y plant yn gallu cael mynediad at y gegin heb oruchwyliaeth ac oherwydd bod peryglon posibl i'r plant yn yr ardal awyr agored. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom ganfod bod y darparwr wedi cymryd camau gweithredu ac wedi cyflawni cydymffurfiaeth o ran peryglon a diogelwch, am fod drws y gegin bellach yn cael ei gadw ar gau drwy'r amser ac am fod asesiad risg priodol wedi'i gynnal yn yr awyr agored. Dywedodd y person â gofal wrthym nad eir â'r plant bellach i'r awyr agored os oes unrhyw beryglon posibl yn yr amgylchedd. Gwnaethom argymhell bod y darparwr yn parhau â'i fwriad o osod ffens yn yr ardal awyr agored i rwystro unrhyw un rhag cael mynediad heb awdurdod.

Mae'r staff yn fwy ymwybodol o'r peryglon posibl i'r plant, a'u dyletswydd i leihau'r rhain.

3.2 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Ni wnaethom ystyried y maes hwn yn yr arolygiad hwn.

3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r offer?

Ni wnaethom ystyried y maes hwn yn yr arolygiad hwn.

4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Crynodeb

Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol ac ni wnaethom ystyried y thema hon yn llawn. Bydd yn cael ei harchwilio yn fwy manwl mewn arolygiadau yn y dyfodol. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod rhywfaint o welliannau wedi digwydd o ran rheolaeth gyffredinol y gwasanaeth. Penodwyd dirprwy berson â gofal, ac mae systemau goruchwyllo ac arfarnu bellach ar waith. Fodd bynnag, mae'r darparwr yn peidio â chydymffurfio o hyd â Rheoliad 16 (1), Adolygu ansawdd y gofal, oherwydd nid ydyw wedi cynnal adolygiad o ansawdd y gofal. Rhaid i'r pwyllgor rheoli weithredu a sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â'r mater hwn o ddiffyg cydymffurfiaeth.

Ein canfyddiadau

4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Ers yr arolygiad diwethaf, gwelsom fod dogfennau wedi cael eu hadolygu gan y person â gofal ac mae'r pwyllgor rheoli wedi ein hysbysu'n rheolaidd ynghylch newidiadau yn y gwasanaeth. Mae asesiadau risg wedi cael eu datblygu ar gyfer casglu plant o ysgolion, ac mae'r holl asesiadau risg cyfredol wedi cael eu hadolygu. Fodd bynnag, nid yw'r darparwr wedi bodloni ei gyfrifoldeb cyfreithiol o ran cwblhau adolygiad o ansawdd y gofal yn y gwasanaeth.

Mae'r arweinyddiaeth a rheolaeth yn y gwasanaeth hwn yn gwella.

4.2 Pa mor effeithiol yw'r dull o reoli ymarferwyr, y staff ac adnoddau eraill?

Ni wnaethom ystyried y maes hwn yn ystod yr arolygiad. Fodd bynnag, mae'r darparwr bellach yn cydymffurfio â Rheoliad 29 (3) (a), Cyflogi staff, am fod systemau goruchwyllo ac arfarnu priodol ar waith a gwelsom dystiolaeth o hyn. Gwnaethom argymhell bod goruchwyliaeth yn cael ei chynnal yn rheolaidd yn y dyfodol.

Mae'r dull o reoli staff yn gwella.

5. Gwelliannau y mae angen eu gwneud ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Yn ystod yr arolygiad a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2017, gwnaethom nodi tri maes lle nad oedd y darparwr cofrestredig yn bodloni ei gyfrifoldeb cyfreithiol a chyflwynwyd hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio. Roedd y rhain yn cynnwys: Rheoliad 16 (1) Adolygu ansawdd y gofal, Rheoliad 25 (a) Peryglon a diogelwch, a Rheoliad 29 (3) (a) Cyflogi staff.

Gwnaethom gynnal arolygiad â phwyslais penodol ar 6 Medi 2017 a chanfod bod y gwasanaeth wedi mynd i'r afael â'r problemau hyn er mwyn cyflawni cydymffurfiaeth ond ei fod yn peidio â chydymffurfio o hyd â Rheoliad 16 (1), Adolygu ansawdd y gofal, oherwydd nad oedd y darparwr wedi cwblhau adolygiad o ansawdd y gofal.

5.2 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn yr arolygiad hwn

Dim

5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

- Gweithredu ar y bwriad o osod ffens o amgylch yr ardal awyr agored
- Sicrhau bod goruchwyliaeth ac arfarniadau yn cael eu cynnal yn rheolaidd

6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol i wirio'r cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael â'r diffyg cydymffurfiaeth a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol.

- Treuliodd un arolygydd tua dwy awr a hanner yn y gwasanaeth.
- Gwnaethom adolygu'r wybodaeth a gedwir gan AGGCC.
- Gwnaethom edrych ar amrywiaeth o ddogfennau. Roedd y rhain yn cynnwys asesiadau risg, holiaduron adborth, a'r datganiad o ddiben.
- Gwnaethom arsylwi arferion gofal.
- Gwnaethom ymgymryd â gwiriad gweledol o'r adeilad.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan, www.aggcc.org.uk

7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

Y math o ofal a ddarperir	Gofal dydd plant Gofal dydd sesiynol
Person â gofal	Manon Paschalis
Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd	19
Ystod oedran y plant	Rhwng dwy a phedair blwydd oed
Oriau agor	8.30am – 11.30am 12.30pm – 3.10pm yn ystod tymor yr ysgol yn unig
Iaith weithredol y gwasanaeth	Cymraeg
Dyddiad arolygiad blaenorol AGGCC	5 Mehefin 2017
Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn	6 Medi 2017
Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?	Nac ydy
Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol o ran yr iaith Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn bodloni anghenion y bobl sy'n defnyddio neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth o ran yr iaith Gymraeg a'i diwylliant.
Gwybodaeth ychwanegol:	